

CYNWAL, WILIAM (bu farw 1587 neu 1588), bardd

Enw: Wiliam Cynwal
Dyddiad marw: 1587 neu 1588
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Ray Looker

O Ysbyty Ifan, sir Ddinbych, disgybl i **Ruffudd Hiraethog** a disgybl pencerddaidd ail eisteddfod Caerwys (1568). Cadwyd nifer mawr o'i gerddi, yn y mesurau caeth gan mwyaf, a llawer ohonynt yn llawysgrif y bardd (e.e., **NLW MS 3030B**). Testunau ei farddoniaeth oedd mawl, marwnad, a gofyn i wahanol foneddigion Gogledd Cymru, crefydd, serch, dychan, ac ymryson. Yr enwocaf o'r ymrysonau yw'r un hir rhyngddo ag **Edmwnd Prys**. Ceir ganddo hefyd herodraeth (e.e., Bangor MS. 5943), brut (**Peniarth MS 212**), gramadeg (Cardiff MS. 38), a darn o eiriadur yn llaw **Edward Williams** ('Iolo Morganwg') (**NLW MS 13142A**). Cedwir copi o'i ewyllys, a wnaethpwyd ychydig cyn ei farw, yn y Llyfrgell Genedlaethol. Fe'i claddwyd yn Ysbyty Ifan a chanwyd marwnad iddo gan **Edmwnd Prys**.

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarendieux and Norroy, two kings at arms(Llandoverly 1846), ii, 278

Archifau LIGC: *Peniarth MS 128: Llyfr Edward ap Roger* (680)

Archifau LIGC: *Llanstephan MS 137: Transcripts*

Llechid Jones MS. 10 (NLW MS 6495D, NLW MS 6496C)

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdŷr 1867-70)

O. Gethin Jones, *Gweithiau Gethin sef casgliad o holl weithiau barddonol a llenyddol* (Llanrwst 1884)

Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol, x, 122

Reports on Manuscripts in the Welsh Language (Historical Manuscripts Commission 1898â€“1910), ii, 718

Christ Church MSS. yn Rhydychen

T. R. Roberts, *Edmwnd Prys, archddiacon Meirionydd: traethawd bywgraffyddol a beirniadol* (Caernarfon 1899), yn cymmwys cywyddau Cynfal a Prys

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Wiliam Cynwal

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 33533592

Wikidata: Q4220725

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Looker, R., (1953). CYNWAL, WILIAM (bu farw 1587 neu 1588), bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-CYNW-WIL-1587>

Clipwrdd

Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Modeld ari
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government